MYNYDDOEDD DUON/MYNYDD Y GADER

Byddai mwy o enwau creigiau a chlogwyni wedi bod yn yr ardal hon ar un adeg. Mae'r wybodaeth am enwau wedi eu colli wrth i arfer amaethyddol newid, gyda llai o fugeilio ar y bryniau, a diboblogi gwledig yn ymgasglu. Fodd bynnag, y prif achos o ran colli enwau yw'r dirywiad yn nefnydd y Gymraeg dros y canrifoedd; enwedig yn ystod Oes Fictoria gyda'i syniadau 'blaengar' ynglŷn ag addysg a'r angen i ddefnyddio'r Gymraeg. Efallai y bydd rhai o'r enwau 'coll' yn dal i oroesi mewn defnydd lleol, er y bydd angen eu cofnodi'n fuan.

Black Darren/Tarren Ddu SO 293303
Black Darren yw'r enw a roddir ar fapiau'r AO; fodd bynnag, mae'n debygol mai cyfieithiad uniongyrchol o'r Cymraeg sydd. Mae'n anodd nodi pryd y digwyddodd y newid, er ei fod yn eithaf hwyr yn ôl pob tebyg. Rhaid cofio bod llawer o Swydd Henffordd, enwedig yr ardaloedd i'r Gorllewin o Afon Gwy, yn Gymraeg eu hiaith ymhell i mewn i'r 17eg G.

Bryniog SO 198224
Mae'r term *bryniog* 'llawer o fryniau' braidd yn ddiarth fel enw ar ychydig o greigiau; ond nid oes enw arall ar y darn bach o dir garw. Tybed os *bryn* 'banc' sydd ar gael yma, neu llygriad *bron* 'llechwedd, cefn' + *-og* 'tueddiad i, cysylltiad a'?

Craig Ddu SO 288265 .
Unwaith eto mae'r gair du yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio man ble mae'r agwedd yn un tywyll, craig sydd gwynebu'r Gogledd Ddwyrain – felly yn y cysgod drwy'r dydd.

Y Darren SO 296244, SO 212212
Mae sawl *tarren* 'clogwyn' wedi eu ffurfio oherwydd tirlithriadau mawr.

Y Graig SO 255161
Mae'r fannod *Y* yn gwneud yr enw yn un arbennig, oedd amlygrwydd i'r *craig* 'cliff, rock' yn yr ardal, un nodweddol o unrhyw gyfeiriad?

Red Darren/Tarren Goch SO 295296
Tarren 'llechwedd serth carregog' sy'n edrych yn goch oherwydd presenoldeb tywodfaen, neu greigiau wedi'u harlliwio gan y tywodfeini. Mae'r rhan fwyaf o'r creigiau yn yr ardal yn perthyn i'r grŵp Hen Dywodfaen Coch ac yn dyddio o'r cyfnod Defonaidd. Mae'r dilyniant o greigiau yn cynnwys tywodfeini, cerrig llaid a cherrig silt ac mae'r ardal yn dangos effeithiau erydol Rhewlifiant.

Tarren yr Esgob SO 237314
Y tebygrwydd yw mai cysylltiad gydag *esgob* 'clerigwr eglwysig' sydd yn yr enw, oherwydd ei safle uwch Capel y Ffin. Taren'r Esgob 1832 AO.

Mynyddoedd.co.uk